

**CYFARFOD SWYDDOGOL O GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y
GYMRAEG CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, brynhawn Mercher
30 Tachwedd 2016, 3pm, Pencadlys y Cyngor, Cwm Clydach.

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-

G Hopkins – Cadeirydd

R Bevan E Hanagan C Davies

Swyddogion oedd yn bresennol

Mrs W Edwards – Pennaeth Addysg yn y Gymuned

Mrs E Thomas – Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

Mr S Gealy – Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

Ms E Siôn – Menter Iaith

Ms Heledd Morgan – Rheolwr Partneriaethau Gwasanaethau Cyhoeddus

Ms Hannah Williams – Swyddog Busnes y Cabinet

17 YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M Webber
a'r Ysgrifennydd i'r Cabinet, Mr C Hanagan.

18 DATGAN BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

19 COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 10 Hydref 2016 yn adlewyrchiad cywir o'r
cyfarfodydd.

YMGYNGHORIAD Â'R FFORWM IAITH YNGHYLCH STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG DRAFFT I'R GRŴP LLYWIO

Cyflwynodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned ganlyniadau'r ymgynghoriad â'r Fforwm Iaith ynghylch Strategaeth Hybu'r Gymraeg drafft i'r Grŵp Llywio.

Atgoffwyd y Grŵp am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2016, pan benderfynwyd cyfeirio'r Strategaeth ddrafft at Fforwm Iaith y Sir. Byddai'n gyfle i'r sefydliadau nodi a fyddai'r targedau wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth yn realistig, neu a fyddai angen rhagor o gymorth.

Rhoddodd Ms E Siôn, Menter Iaith, wybod i'r Grŵp am gyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2016, pan adolygwyd y Strategaeth Hybu. Eglurwyd bod aelodau'r Fforwm Iaith, yn gyffredinol, wedi siarad yn gadarnhaol am y Strategaeth, gan ddweud ei bod yn galonogol gweld targedau uchelgeisiol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir.

Roedd aelodau'r Fforwm Iaith o'r farn bod fformat y cynllun gweithredu drafft ar hyn o bryd yn rhoi cyfrifoldebau arnyn nhw sydd y tu hwnt i'w cylch gorchwyl. Cyfeiriwyd y Grŵp at yr argymhellion, lle gofynnwyd am rannu'r cynllun yn ddwy ran er mwyn amlygu meysydd atebolrwydd o ran yr hyn mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano a'r hyn mae'r sefydliadau'n gallu cyfrannu ato.

Eglurodd Ms Siôn byddai gwneud y diwygiadau hyn i'r Strategaeth yn rhoi eglurder i'r Cyngor ac i'r partneriaid ynghylch yr hyn mae disgwyl iddyn nhw ei wneud yn unigol ac yn tynnu sylw at unrhyw fylchau posibl bydd angen rhoi sylw iddyn nhw o fewn y cynllun.

Roedd y Grŵp yn cydnabod y materion a godwyd gan y Fforwm Iaith, gyda'r Cadeirydd yn dweud byddai cyfraniad y partneriaid yn ffactor allweddol wrth helpu'r Cyngor i gyrraedd ei nod.

Roedd y Grŵp yn cydnabod byddai'r Strategaeth yn parhau i gael ei rhagweld yn ei chyfanrwydd gan y Cyngor a'i bartneriaid, ond byddai'r fformat newydd yn gweithio ar lefel fwy ymarferol.

Codwyd cwestiynau ynghylch ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Strategaeth Hybu y Cyngor. Esboniodd Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes nad oedd cyfeiriad clir gan Lywodraeth Cymru, felly, byddai'r awgrym i rannu'r dull gweithredu yn ddwy ran yn dderbyniol os dyna'r dull gweithredu gorau ar gyfer y Sir.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Cael fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth, yn tynnu sylw at rannu'r cyfrifoldebau, yn y flwyddyn newydd.

21 CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2017–2020

Rhoddodd Rheolwr Partneriaethau Gwasanaethau Cyhoeddus gyfle i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg adolygu a chynnig sylwadau ar gopi drafft o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017–2020 cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2016 ac yna'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 20 Rhagfyr 2016. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y terfynau amser yn dynn iawn y flwyddyn yma a byddai'r drafft yn debygol o newid cyn cael ei gyflwyno.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld gwelliant mewn safonau addysg a chwason nhw eu cyfeirio at y canllawiau wedi'u hamlinellu yn adran 4.4 o'r adroddiad:

Deilliannau o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg:

- i. Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o garfan Blwyddyn 2;
- ii. Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- iii. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- iv. Mwy o ddysgwyr 16–19 oed yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- v. Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn i Awdurdodau Lleol geisio ymdrin â'r canlynol yn rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg:

- vi. Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg; a
- vii. Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff yr Awdurdod Addysg.

Siaradodd yr Aelodau yn gadarnhaol am ddeilliannau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a gofyn a allai'r rhain gael eu hadolygu yn ystod y tair blynedd. Rhoddwyd gwybod bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet bob blwyddyn a bod cyfle i'w adolygu gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg hefyd.

Eglurodd y swyddog fod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, yn debyg iawn i'r eitem flaenorol, wedi'i gyflwyno i gyfarfod y Fforwm Iaith ar 4 Tachwedd 2016 i roi cyfle iddyn nhw wneud sylwadau.

Croesawodd Ms Siôn gyfle i'r Fforwm Iaith graffu ar y Strategaeth ddrafft a chyfeirio'r Aelodau at y ddogfen a gyflwynwyd (atodedig) oedd yn amlinellu 11 o feysydd i'w gwella yn y Cynllun, yn eu barn nhw.

Dyweddodd Ms Siôn fod addysg yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol wrth gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir a bod angen rhoi cynllun strategol ar waith i sicrhau twf ysgolion. Rhoddodd y Fforwm Iaith bwyslais hefyd ar bwysigrwydd addysg ôl-16 a llwybrau gyrfa, gan ddweud byddai canolbwyntio ar y datblygiad yma'n cyfrannu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithle.

Siaradodd yr Aelodau yn gadarnhaol am ymateb y Fforwm Iaith i'r Strategaeth ddrafft, gan ddweud ei bod hi'n amlygu meysydd bydd modd eu datblygu i sicrhau gweledigaeth fwy llwyddiannus ar gyfer y dyfodol.

Dechreuwyd trafodaethau ynglŷn ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r rhwystr sydd arnyn nhw mewn perthynas â chludiant. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes mai argyhoeddiad y rhieni sy'n penderfynu pa ysgol sydd orau ar gyfer eu plant, ond, yn aml, gall y daith i'r ysgol ddarparu profiad cadarnhaol a rhyngweithio cymdeithasol ar gyfer y plant. Cytunodd Aelodau o'r Grŵp fod cludiant yn cael effaith anffafriol ar blant sy'n mynychu ysgolion Cymraeg a byddai'n parhau i fod yn her i ddarbwylo rhieni i beidio â dewis ysgol Saesneg sydd, yn aml, yn cael ei hystyried yn opsiwn mwy cyfleus. Dywedodd Ms Siôn fod angen mawr am Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Strategaeth Hybu'r Gymraeg i fod ynghlwm wrth ei gilydd i fynd i'r afael â materion fel y rhain.

Codwyd pryderon mewn perthynas â'r cyfnod pontio o'r meithrinfeydd i'r ysgol gynradd gyda'r Aelodau'n cytuno byddai nifer y siaradwyr yn gwella ar lefel iau pe bai'r plant yn cael eu hannog i fynychu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg. Rhoddwyd gwybod bod hwn yn gam cadarnhaol sy'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Gofynnodd yr Aelodau am y defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â'r Gymraeg, a dywedwyd wrthyn nhw fod prosiectau ar y gweill yn lleol ac yn genedlaethol i wella'r defnydd o'r ddau gyfrwng.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad

22 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Gyda chytundeb y Cadeirydd, nodwyd bydd cyfarfod nesaf Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn cael ei gynnal ddydd Mercher 25 Ionawr 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 4pm

**Y Cynghorydd G Hopkins
Cadeirydd.**